

Cyfarwyddyd Cyfnod Cynefino Portffolio Seiliedig ar Ymarfer

1. Deall y portffolio Seiliedig ar Ymarfer

Ymchwiliad yw eich portffolio sy'n seiliedig ar ymarfer, i gyd-destun neu faes proffesiynol penodedig. Bydd y prosiect hwn yn canolbwyntio ar agwedd o ymarfer o fewn ei faes (gall eich tiwtoriaid eich helpu chi i gwblhau hynny). er enghraifft:

- Fe allwch fod wedi adnabod maes ymarfer y gellid ei wella, newid neu ei ymchwilio.
 - Fe allech ddymuno chwilota rhan newydd o'ch maes
 - Efallai bod gyda chi syniad arloesol yr hoffech ei brofi neu ddatblygu a allai wella neu gyfrannu tuag at ymarfer.
- 2. Beth fydd angen i fi ei wneud?**
- a. Dylunio a Chwilota - Bydd angen i chi gynnal ymchwil helaeth i gynhyrchu cynnig/rhesymwaith ar gyfer eich prosiect. Bydd yr yn cael ei gwblhau gyda chefnogaeth gan eich goruchwyliwr drwy gyfarfodydd rheolaidd, datblygiad sgiliau drwy gynnwys ar-lein a seminarau.
 - b. Cydweithio a Datblygu – bydd y cyfnod nesaf hwn yn golygu ymgysylltiad wythnosol gyda'ch goruchwyliwr a chymheiriaid er mwyn datblygu eich syniad/ymchwil a chwblhau tasgau wythnosol
 - c. Cynhyrchu ac Adlewyrchu – Dyma'r adran lle byddwch yn cynnal eich ymchwil ac yn casglu tystiolaeth ar gyfer eich ymholiad syniad/seiliedig ar broblem. Ceir ffocws yma ar gyfarwyddyd testun penodol. Yn y cam yma efallai bydd gofyn i chi gynhyrchu blogiau, adnoddau, byrddau dylunio neu gynllun busnes(penodol i glwstwr). Bydd manylion pellach ynglŷn â'r cam yma ar gael drwy eich tiwtor.
 - d. Cyflwyno a Rhannu – dyma gam olaf eich portffolio. Yma byddwch yn cael eich annog i gyflwyno eich ymchwil/canfyddiadau/prosiect. Gallai hyn fod drwy gyfrwng cyflwyniad, arddangosfa, adroddiad ysgrifenedig neu gynhadledd a bydd yn cael ei benderfynu gan eich clwstwr/pwnc.

Pethau i'w cofio

- Mae'n bwysig eich bod yn dangos prawf o wybodaeth ddofn a dealltwriaeth beirniadol o'ch pwnc o fewn eich cynnig ymchwil a phan yn cyflwyno eich canfyddiadau. Darllen yw ystyr hwn!
- Dyma ddarn annibynnol o waith, ac mae'ch tiwtoriaid yno i 'ch cefnogi a'ch cynghori ond eich cyfrifoldeb chi yw ysgrifennu ac ymchwilio. Cynlluniwch eich amser yn dda o'r cychwyn cyntaf. Fe allai ymddangos fel pe bai gyda chi lawer o amser i'w gwblhau, fodd bynnag mae hwn yn ddarn o waith sylweddol.
- Dewiswch bwnc sydd o diddordeb i chi mewn maes ymarfer yr ydych yn brofiadol ynddi. Bydd hyn yn helpu chi i gynnal eich cymhelliad a diddordeb drwy gydol y prosiect.
- Cadwch nodiadau a rhestr gyfeirio parhaus drwy eich ymchwil a'ch ysgrifennu, wyddoch chi fyth pan fydd angen i chi ddarllen yr erthygl hwnnw eto.

CEFNOGAETH A CHYFRIFOLDEBAU

Wrth i chi ddechrau ar eich prosiect fe all fod gofyn i chi gynhyrchu dwy ddogfen:

- cynnig ymchwil byr a allai gynnwys adolygiad llenyddiaeth gefndir, rhesymwaith, cwestiynau allweddol/hypothesis, methodoleg awgrymedig a

chynllun ymchwil; [Fe allwch fod wedi cwblhau rhywbeth tebyg i hyn eisoes mewn ymarfer a gafwyd mewn modiwlau blaenorol yn eich rhaglen. Gallwch ddefnyddio hwnna nawr, i newid, dechrau un newydd, neu os nad ydych wedi gwneud un o'r blaen mynnwch gymorth i ddatblygu un].

- mae ffurflen ystyriaeth moesegol wedi'i gwblhau (os yw'n berthnasol) yn rhan bwysig o'ch prosiect a rhaid i chi ei gwblhau cyn i chi ddechrau casglu unrhyw ddata. Bydd eich tiwtoriaid ar y modiwl hon yn eich cefnogi wrth i chi gwblhau Ffurflen Moeseg.

Rôl y tiwtoriaid fydd:

- i annog myfyrwyr i chwilota ystod bosib o feysydd ymchwil a chynnig cefnogaeth wrth adnabod pwnc perthynol i'r gweithle addas lle fyddai'n berthnasol, yn arwain at ddewis maes ymchwil terfynol;
- i gynnig cymorth a chefnogaeth yn ystod adeg ysgrifennu cynnig ymchwil ar y gyfer y prosiect a fwriadwyd, gan gynnwys egluro nodau ac amcanion ymchwil a fframio'r cwestiynau ymchwil priodol;
- i roi cymorth, cefnogaeth a chyfarwyddyd yn ystod chwilio am lenyddiaeth ac ysgrifennu'r adolygiad ar lenyddiaeth; gan gynnwys argymhelliad y ffynonellau ymchwil priodol a dulliau ymchwilio;
- i roi cyfleoedd am drafodaeth beirniadol a dadl i'r myfyrwyr ynglŷn â'r dadleuon academiaidd allweddol mewn perthynas â'r pwnc a ddewiswyd;
- i rhoi cyfarwyddyd ar gasglu data ymchwil sylfaenol priodol a dulliau dadansoddi ac i helpu'r myfyriwr ddatblygu a gwella sgiliau angenrheidiol
- i arwain strwythur a chyflwyniad y prosiect;
- i gefnogi, annog a chymhell y myfyriwr yn gyffredinol yn eu hymchwil.

Prif gyfrifoldeb y myfyriwr (chi) fydd:

- i ymgysylltu â deunydd y modiwl a mynychu cyfarfodydd gyda'ch goruchwyliwr yn rheolaidd.
- I lynu at amserlen Cynllun y Prosiect a rhoi gwybod i'ch goruchwyliwr am unrhyw broblemau.
- I gyflwyno unrhyw ddeunydd arall y gofynnir amdano'n benodol gan dîm eich portffolio.
- i sicrhau mai ef/hithau sy'n gwbl gyfrifol am y gwaith a gyflwynir.
- i drefnu cyfarfodydd gyda'r goruchwyliwr a'u mynychu.
- i fod yn rhagweithiol a chadw cyswllt gyda'r goruchwyliwr er mwyn sicrhau cynnydd ei waith ef neu hithau.
- i gadw cofnodion o gyfarfodydd gyda goruchwylwyr, dyddiadau a chrynodeb o'r gwaith, gwaith y dylid ei gynnal ar gyfer y cyfarfod nesaf a'r amser a ddefnyddiwyd.
- i fod yn rhagweithiol a thrafod unrhyw broblem sydd yn codi o'i broiect gyda'i goruchwyliwr, fel eu bod yn cael eu datrys mor gynnar â phosib.
- i roi gofynion amserol, penodol ac eglur ar gyfer cyfarfodydd ac unrhyw waith a gaiff ei gynnig am adborth ffurfiannol (Noder bod adborth ar ysgrifennu wedi'i gynnwys yn y 12 awr a ddyrannwyd ar gyfer goruchwyliaeth, felly cyngorir myfyrwyr i fod yn GLYFAR a defnyddio amser goruchwylwyr ar gyfer adborth yn ddoeth).
- i gadw at y holl reoliadau, yn enwedig, rheoliadau ynglŷn â llên-ladrad a gofynion gosod gwaith.